


Gweithredu, Nid Geiriau

Adduned i ddod ag anghydraddoldeb hiliol i
ben ym maes tai



**Gweithredu,
Nid Geiriau**



tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

Yr her cydraddoldeb hiliol i sector tai cymdeithasol Cymru

Mae digwyddiadau diweddar wedi taflu golau o'r newydd ar yr anghydraddoldeb hiliol a'r hiliaeth a brofir gan gymunedau BAME ym mhedwar ban byd, yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru.

Mae effeithiau'r pandemig Covid-19 ar grwpiau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill wedi bod yn ddifrifol, a chymunedau BAME hyd at ddwywaith yn fwy tebygol o farw o'r clefyd nag eraill. Mae nifer o'r rhesymau am yr effaith hon yn gysylltiedig ag anfantais economaidd gymdeithasol hirsefydlog, hiliaeth gyfundrefnol a diffyg cynrychiolaeth BAME o fewn strwythurau penderfynu fel modd o ddylanwadu i gyflawni gwell canlyniadau. Mae'r pandemig Covid-19 wedi chwyddo'r anghydraddoldebau hyn.



Mae llofruddiaeth George Floyd, y mudiad Mae Bywydau Duon o Bwys/*Black Lives Matter* a'r protestio ym mhedwar ban byd a'i dilynodd hefyd wedi dwyn i'r amlwg yr anghydraddoldebau ac anghyfiawnder cyfundrefnol sy'n bodoli, gyda chymunedau BAME yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru yn mynnu newidiadau parhaol i'r ffordd rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.

Ers ei sefydlu yn 2005, mae Tai Pawb wedi bod yn gweithio gyda'r sector tai i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol, ond mae'n amlwg fod angen ymrwymiad gan arweinwyr i wneud newidiadau cadarn yn ein ffordd o weithio a'r gwaith a wnawn.

I wireddu hyn, rydym yn galw ar ein haelodau yng Nghymru i lofnodi eich bod yn cytuno i gyflawni'r addunedau isod yn y 5 mlynedd nesaf. Ystyriwn mai'r rhain yw'r cam cyntaf angenrheidiol i ddechrau'r broses o fynd i'r afael â phryderon cymunedau sydd dan fygythiad oherwydd anghydraddoldebau hiliol.

Rydym yn galw ar gymdeithasau tai, awdurdodau lleol, mudiadau cymorth tai a phob aelod-sefydliad arall i lofnodi'r adduned hon. Rydym yn ymwybodol bod rhai o'r camau gweithredu hyn yn berthnasol i gymdeithasau tai yn unig, rhai i ddarparwyr tai, ac eraill y gellir eu cyflawni gan unrhyw fudiad tai neu fudiad trydydd sector sy'n aelod o Tai Pawb. Ymunwch â ni i fynd i'r afael a hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol.

Dysgu

Rydym yn hynod ymwybodol bod angen inni, wrth ymgymryd â'r gwaith isod, ein herio ein hunain a gofyn inni'n hunain ac i'r sector pam nad yw rhai o fentrau'r gorffennol wedi gweithio, beth sydd wedi llwyddo, a dylai'r hyn rydym yn ei ddysgu fod wrth galon mynd i'r afael â'r heriau a nodir isod. Gwyddom, er enghraifft, fod adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r camau gweithredu dilynol wedi arwain at ganlyniadau go iawn. Mae ein harolygon staff QED hefyd yn dangos effaith y gwaith a

wneir gan fudiadau fel rhan o'u siwrne QED. Gwyddom fod gan Gymru lawer mwy o Brif Swyddogion benywaidd na Lloegr. Gwyddom inni weld cynnydd pendant yng nghynrychiolaeth menywod ar fyrddau rheoli yn dilyn canolbwyntio ar reoleiddio ac arweinyddiaeth yn y maes. A gwyddom fod Rheol Rooney wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn yr NFL.

Fodd bynnag, mae gwersi pellach i'w dysgu, ac yn greiddiol i'r dysgu hwn, dylid myfyrio'n onest ar rôl arweinyddiaeth ym methiant mentrau'r gorffennol ac yn sbarduno'r newid hwn. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r sector a'i gefnogi wrth achub ar y cyfle hwn, gan efallai na chawn gyfle arall.

Sut fyddwn ni'n gwybod beth sydd wedi newid?

Datblygwyd yr addunedau isod ar sail y data a'r dystiolaeth am anghydraddoldeb a phrofiadau rydym wedi bod yn ei gael trwy ein gwaith ar y dyfarniad QED ynghyd â'r gwaith ymgynghori, cefnogaeth ac ymgysylltu ehangach a wnawn gyda'n haelodau. Mae'r amrywiol ddigwyddiadau a sgysiau rydym wedi'u cynnal gyda phobl croenliw ym maes tai a thu hwnt yn rhoi darlun llawn pryder o effaith hiliaeth a gwahaniaethu cyfundrefnol sylweddol a pharhaus, ynghyd â'r angen am newid systemig.

Rydym yn ymwybodol hefyd bod angen inni gael darlun cyflawn a phendant o lle'r ydym arni ar hil a thai yng Nghymru er mwyn gallu mesur cynnydd. Gwyddom, er enghraifft, mai dim ond 3% o aelodau byrddau rheoli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bobl BAME, o'i gymharu â 6% o'r

boblogaeth, ond mae angen data mwy cadarn am ein man dechrau, felly ein cam cyntaf fydd cynnal arolwg i gael gwaelodlin eglur ar sefyllfa'r sector o ran cydraddoldeb hiliol. Bydd yr arolwg hwn yn goleuo ein dull o fesur cynnydd a gweld a allwn ni ddatblygu mentrau i gefnogi'r newid wrth symud ymlaen. Byddwn yn cynnal arolygon a gwaith ymgysylltu rheolaidd i asesu beth sydd wedi newid a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau. Rydym yn awyddus hefyd i archwilio a oes rôl y gallai rheoleiddiwr ei chwarae mewn arwain ar y newid hwn.

Hoffem hefyd i'n gwaith gael ei sbarduno ymhellach gan bobl BAME sy'n gysylltiedig â'r maes tai a bwriadwn wneud hyn trwy'r panel Gweithredu, Nid Geiriau.



Yr hyn a ofynnwn i chi ei wneud (a'r hyn a wnawn ni):

- Ymrwymo i weithredu'r pwyntiau isod yn y 5 mlynedd nesaf trwy lofnodi i ymuno â'r adduned (byddwn yn cyhoeddi pa fudiadau sydd wedi ymuno)
- Byddwn yn cysylltu â phob mudiad bob 12 mis i gasglu a chyhoeddi adroddiad ar gynnydd a thynnu sylw at lwyddiannau neu fylchau ar ein gwefan, ar y cyfryngau cymdeithasol, yng ngwasg y maes tai, digwyddiadau Tai Pawb a'r sector ac yn y blaen
- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i fudiadau sy'n cymryd rhan ddod ynghyd, trafod eu cynnydd, a rhannu gwersi a ddysgwyd ynghyd â heriau
- Byddwn yn cefnogi mudiadau sy'n cymryd rhan trwy ein gwasanaethau aelodaeth presennol fel y llinell gymorth, hyfforddiant neu ymgynghori
- Byddwn yn anelu at ddatblygu mentrau a phartneriaethau newydd gyda chyrrff allweddol yn y sector i gefnogi'r rhai sydd wedi llofnodi, er mwyn cyflawni newid
- Byddwn yn cynnal arolygon ac ymchwil, yn cynnwys arolygon ar gyfer mudiadau sy'n cymryd rhan, a byddwn yn defnyddio'r canlyniadau i amlygu llwyddiannau a'n herio ni ein hunain a'r sector.

Adduned Tai Pawb

- Byddwn yn mabwysiadu'r Rheol Rooney wrth recriwtio ar gyfer ein bwrdd a'n staff
- Byddwn yn gwella amrywiaeth hil ein bwrdd a'n staff
- Byddwn yn sefydlu panel Gweithredu, Nid Geiriau yn cynnwys pobl BAME sy'n gysylltiedig â'r maes tai i'n helpu i fwydo i mewn i waith polisi, herio'r sector a chyflawni newid
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mentrau i gefnogi'r sector i gyflawni eu hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth
- Byddwn yn cynnal gwaith ymchwil ar anghydraddoldebau ym maes tai, yn herio ac yn gweithio gyda'r sector a rhanddeiliaid i ymdrin ag argymhellion
- Byddwn yn parhau i weithio ar ein nod o ddatblygu darpariaeth tai dros dro a chymorth ar gyfer ffoaduriaid digartref sy'n gadael llety'r Swyddfa Gartref
- Byddwn yn datblygu mwy ar ein cysylltiadau a'n gwaith mewn partneriaeth â chymunedau sy'n cael eu heffeithio arnynt gan hiliaeth er mwyn bod yn fwy cysylltiedig â phrofiadau'r bobl y mae'r sector yn eu cefnogi.

1. Lliniaru effaith Covid-19 ar staff a chymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill

Yr hyn a ofynnwn i chi ei wneud

- Mabwysiadu Adnodd Asesiad Risg Covid-19 Cymru Gyfan sy'n cydnabod y risg uwch o COVID-19 i staff BAME a gweithredu ar y canfyddiadau (sicrhau bod pryderon staff Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill yn cael eu cymryd o ddifrif â'u hymdrin â hwy mewn modd teimladwy, heb ofn y cânt eu trin yn anffafriol os caiff waith ei aildrefnu)
- Ymrwymo i gymorth llesiant/seicolegol a chefnogaeth arall staff Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill a allai fod yn teimlo effaith hyn neu deimlo'n fregus ar hyn o bryd
- Archwilio rhesymau dros orlenwi ac amodau tai gwaeth yn erbyn rhai grwpiau BAME. Mynd ati i weithredu ar y canfyddiadau.

2. Gwella amrywiaeth ethnig y bwrdd a'r staff ar bob lefel

Yr hyn a ofynnwn i chi ei wneud

- Mabwysiadu'r [Rheol Rooney](#) ar lefelau swyddi lle'r ydych yn gweld bod tangynrychiolaeth yn bodoli
- Adrodd yn flynyddol a gweithredu ar y canfyddiadau:
 - bwlch cyflog ethnigrwydd (pan nad yw adrodd ar fylchau cyflog yn bosibl oherwydd meintiau samplau bychain, yna adroddwch ar gymhareb cyflogeion BAME ar wahanol lefelau)
 - data ethnigrwydd ar recriwtio, hyrwyddo a chadw staff
- Buddsoddi mewn sianeli recriwtio i ddenu mwy o ymgeiswyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Rhoi hyfforddiant i'ch holl staff a'ch bwrdd ar Ragfarn Ddiarwybod a chodi ymwybyddiaeth am fraint y croenwyn
- Sicrhau amrywiaeth ethnig yn eich paneli recriwtio
- Buddsoddi adnoddau mewn mentrau gweithredu cadarnhaol sy'n anelu at wella cynrychiolaeth BAME ar y lefelau sy'n dangos bylchau. Gall hyn gynnwys rhaglenni datblygu arweinyddiaeth, cyfleoedd mentora/cysgodi, a mentrau meithrin talent o fewn eich sefydliad.

3. Cyfathrebu ac ymgysylltu

Yr hyn a ofynnwn i chi ei wneud

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch cefnogaeth i gydraddoldeb hiliol yn cynnwys: lleisio'ch cefnogaeth i staff a thenantiaid/cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, eich ymrwymiad i arferion gwrth-hiliol ac ymwybyddiaeth o heriau penodol sy'n wynebu eich mudiad neu'ch cymuned
- Ynghyd â'r uchod – cyhoeddi eich ymrwymiad i gymryd camau penodol i fynd i'r afael â'r heriau rydych wedi'u canfod. Adrodd yn flynyddol ar eich cynnydd
- Gwahanu data ethnigrwydd yn eich arolygon boddhad tenantiaid ac arolygon eraill ar gyfer tenantiaid. Defnyddio sianeli eraill i ddysgu am brofiadau tenantiaid BAME. Gweithredu ar y canfyddiadau
- Mewn ardaloedd gwasgaru ymgeiswyr lloches, ymrwymo i gyfrannu neu brydlesu tai i fentrau tai ffoaduriaid (lle mae'r rheiny'n bodoli).

4. Datblygu diwylliant cynhwysol

Yr hyn a ofynnwn i chi ei wneud

- Prif Weithredwyr, uwch arweinwyr, penaethiaid adrannau tai a byrddau rheoli i gymryd rôl ragweithiol mewn hyrwyddo a monitro cynnydd ar yr addunedau hyn
- Prif Weithredwyr, uwch arweinwyr a byrddau rheoli i hyrwyddo a rhoi cefnogaeth weithredol i ddiwylliant cynhwysol lle mae pobl yn gyfforddus yn siarad am hil ac yn gallu arddel eu hunaniaeth yn llawn yn y gweithle
- Rhoi cefnogaeth weithredol i a hyrwyddo diwylliant lle mae staff a thenantiaid Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gyfforddus yn lleisio pryderon sy'n gysylltiedig â hil, a'u bod yn cael eu credu pan fo hyn yn digwydd
- Buddsoddi mewn cynlluniau monitro am yn ôl i rannu profiadau a gwella cyfleoedd.

Hoffem ddiolch i'r bobl ganlynol am eu hamser a'r gefnogaeth maent wedi'i roi inni wrth ddatblygu'r addunedau hyn.

Alan Brunt
Nazia Azad-Warren
Noreen Blanluet
Abdi Segulle
Marilyn Bryan
Uzo Iwobi OBE
Rocio Cifuentes
Jerome Fanfare